# CALON LÂN YN YR ALBAN?

## gan HUW WILLIAMS

ERBYN heddiw nid oes fawr ddim i'n hatgoffa o lafur llenyddol Daniel James (Gwyrosydd), a fu farw yn 1920, ar wahân i eiriau'r hen gân boblogaidd 'Pa le mae'r Amen?' (cerddoriaeth gan John Owen, 'Ap Glaslyn'), a'r geiriau a ddaeth yn sylfaen i'r emyn-dôn a ddisgrifiwyd yn ddiweddar gan ŵr o'r de fel 'Anthem Genedlaethol answyddogol y genedl,' sef 'Calon Lân'.

Yn rhifyn Mawrth 1886 o *Trysorfa'r Plant* y gwelais i'r copi cynharaf o'r geiriau 'Pa le mae'r Amen?'. Cyn diwedd y ganrif ddiwethaf yr oedd Ap Glaslyn wedi cael ei swyno gan y geiriau hynny, a D. W. Davies a'i Gwmni, Caernarfon, wedi cyhoeddi cân a ddaeth yn un o ffefrynnau mawr cyngherddau ein gwlad. Parhaodd y gân yn boblogaidd am rai blynyddoedd wedi i gwmni Snell o Abertawe sicrhau ei hawlfraint yn 1925.

Yn ei ysgrif 'Awr gyda Gwyrosydd' yn rhifyn Gorffennaf 26, 1918 o'r *Darian*, edrydd O. T. Hopkins fod Gwyrosydd (a'i ddisgynyddion hefyd o ran hynny) yn aelodau ffyddlon yn Eglwys y Mynydd-bach, Abertawe, a bod 'yr addoliad wedi mynd yn farwaidd iawn' ar un achlysur. Bu hynny'n gyfrwng i gyffroi awen y prydydd, a'i ysbrydoli i ysgrifennu geiriau 'Pa le mae'r Amen?'. Yn ddiweddarach — ac yn ôl ei arfer — dangosodd Gwyrosydd y geiriau i nifer o'i gyfeillion, a maes o law mynegodd yntau ei syndod pan glywodd y newydd fod y gân yn 'ennill poblogrwydd cynyddol bob dydd'.

Ymddangosodd y geiriau drachefn yn *Aeron Awen Gwyrosydd* yn 1898, ond yr oedd geiriau 'Calon Lân' gan yr un prydydd eisoes wedi ymddangos mewn pedwar o benillion rhyw chwe blynedd cyn hynny, sef yn *Caniadau Gwyrosydd*, gyda nodyn uwchben y penillion yn dynodi fod Mr T. Bedford Richards, Blaengarw, wedi gosod cerddoriaeth ar eu cyfer.

Mae'n wybyddus i bawb bellach na lwyddodd gosodiad T. Bedford Richards i gydio yn nychymyg y genedl, mwy nag y bu i geisiadau gan rai cerddorion eraill lwyddo i daro deuddeg. Roedd un o'r rheini gan Edgar H. Hugheson, a geisiodd osod y geiriau ar ffurf 'unawd/cân i unrhyw lais', gyda throsiad Saesneg o'r geiriau gan y Prifardd J. J. Williams yn dwyn y teitl, 'Cleanse My Heart'.

Gŵr arall a swynwyd gan y geiriau oedd J. J. Evans — masnachwr yn Heol Fawr, Abertawe — a gyhoeddodd ei osodiad yn ei ddetholiad o emyn-donau a salm-donau a gyhoeddodd dan y teitl *Lauda Sion* yn 1899.

Ond yn yr un flwyddyn ag yr ymddangosodd *Lauda Sion,* wele gyhoeddi am y tro cyntaf y gosodiad presennol o 'Calon Lân' gan John Hughes, Glandŵr, Abertawe, a hynny yn rhifyn Ebrill 1899 (cyfrol v, rhif 52, tud. 112) o *Seren yr Ysgol Sul* ('Cylchgrawn misol at wasanaeth y plant', wedi ei olygu gan y Parchedig B. Humphreys, Felinfoel, a'i agraffu yn Llanelli.) Yno, awgrymir y dylid canu 'Calon Lân' 'yn deimladwy', ac y gellid hefyd 'ei chanu yn unawd a chytgan'.

Mewn pedwar o benillion yr ymddangosodd geiriau 'Calon Lân' yn *Caniadau Gwyrosydd* (1892), ond erbyn iddynt gael eu cyhoeddi am y tro cyntaf ochr yn ochr â cherddoriaeth John Hughes, roedd un o'r penillion — y trydydd — wedi cael ei hepgor. Wele'r pennill hwnnw:

*Einioes frau yn ddu gan ofid*
*Fedd pleserau'r byd a'i glod;*
*Ond ymchwydda llanw gwynfyd*
*Calon lân tra'r nef yn bod.*

Dros y blynyddoedd golygwyd ychydig ar y penillion eraill hefyd. Wele eiriau agoriadol yr ail bennill yn 1899:

*Pe dymunwn olud bydol*
*Edyn buan ganddo sydd . . .*

a'r trydydd pennill eto:

*Hwyr a boreu fy nymuniad*
*Gwyd i'r nef ar edyn cân . . .*

Mae'n eithaf tebyg fod Gwyrosydd a John Hughes yn gyfarwydd â'i gilydd; roedd y naill yn weithiwr ('cyffredin', meddir!) yn y Gwaith Bach yn Nhreforys, ond dringodd John Hughes, y cerddor (ganed Chwefror 13, 1872, bu farw Mehefin 16, 1914) i swydd uchel yng Ngwaith Alcam y Dyffryn, Treforys, a byddai'n arferiad ganddo deithio'n achlysurol i wlad dramor yn rhinwedd ei swydd fel cynrychiolydd i'r cwmni hwnnw.

Dywedwyd llawer o bethau — angharedig a chanmoladwy — am osodiad cerddorol John Hughes, ond y dystiolaeth ryfeddaf o ddigon i mi daro fy llygaid arni yw honno gan D. Rhys Phillips yn rhifyn Gorffennaf 1945 o *Cylchgrawn y Gymdeithas Lyfryddol* (Cyf. vi, rhif 3). Yno, mewn cyfraniad yn y golofn *'Notes by the way'* (tt. 169-70) cyfeiriodd Mr Phillips at John Hughes fel *'compiler of the tune Calon Lân'*, ac aeth ymlaen i fynegi amheuaeth ynglŷn â gwreiddioldeb yr alaw. Wele ei eiriau yn y gwreiddiol:

*'It has never been revealed in print or noised abroad that the present "Calon Lân" tune was inspired by the favorite Scots air "The Banks of Allan Water".'*

Gwn yn dda am yr alaw Albanaidd y cyfeiria Mr Phillips ati, alaw mae'n wir sy'n cynnwys ambell gymal sy'n cael ei adleisio yn 'Calon Lân', ond tybed ai'r alaw honno mewn gwirionedd a ysbrydolodd John Hughes i lunio ei dôn adnabyddus?

Gŵr na fyddai fel rheol yn siarad ar ei gyfer oedd D. Rhys Phillips, a gŵr hefyd a wnaeth lawer o ymchwil i agweddau ar hanes cerddoriaeth a cherddorion y genedl pan oedd yn llyfrgellydd dinas Abertawe. O gofio hynny, tybed a oedd ef yn gyfarwydd â theuluoedd Gwyrosydd a John Hughes, a bod un o'r rheini wedi ymddiried iddo ryw gyfrinach ynglŷn â chefndir 'Calon Lân'?

Hwyrach fod rhywun heddiw yng nghymdogaeth Abertawe sydd mewn sefyllfa i'n goleuo!




*DANIEL JAMES (Gwyrosydd) 1848-1920.*

*Parhad o dudalen 28*

Ac ymhob llyfr ceir 'wyneb-ddarlun', rhai yn cysylltu'n uniongyrchol â'r testun, megis y darlun o John Elias yn Llyfr iii, Madonna yr artist Murillo yn Llyfr ix, Dewi Wyn o Eifion yn Llyfr xii a Suntur, man geni Robert Jones yn Llyfr xv, y lleill heb unrhyw gysylltiad amlwg, a chydag eithrio un o Eglwys Kemper yn Llydaw (vii) yn darlunio golygfeydd yng Nghymru, y mwyafrif ohonyn nhw yn y Gogledd.

Wrth fras adolygu cynnwys *Y Llenor* fel hyn rhyw ddyrnaid yn unig o gyfranwyr a nodwyd, a hynny am y rheswm syml mai cyfran fechan o'r erthyglau sy'n dwyn enw'r awdur. Y polisi gwreiddiol oedd cyhoeddi'n ddienw, ond mewn paragraff golygyddol yn Llyfr v ceir addewid i 'roddi enwau ysgrifenwyr *Y Llenor* dan eu herthyglau os byddant yn dewis hynny'. Ychydig mae'n ymddangos oedd am arddel eu gwaith yn gyhoeddus! Faint tybed oedd cyfraniad Owen M. Edwards ei hun, a hynny wrth gwrs yn ychwanegol at ei ddyletswyddau golygyddol o grynhoi deunydd, gan gynnwys casgliadau swmpus o gynnyrch Islwyn, Glasynys a Robert Jones, a'i drefnu ar gyfer ei gyhoeddi? O leiaf, nid oedd nodiadau golygyddol yn nodwedd o gylchgrawn O.M., yn wahanol iawn i'r *Llenor* diweddarach.